# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 7 Chwefror 2012** |
| Amser: | **09:30 - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_07_02_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Carl Sargeant, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**<br>**Debra Carter, Pennath Yr Is-Adran Llywodraeth Leol a Pherfformiad**<br>**Frank Cuthbert, Head of Scrutiny, Democracy and Participation Team** |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1P-04-362 Gwasanaethau Ambiwlans ym Mynwy

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:
Ysgrifennu at y Gweinidog ac at Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn cael eu barn gychwynnol ar y ddeiseb;
Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofyn a fyddai'r Pwyllgor hwnnw'n fodlon ystyried gwneud gwaith ar y mater hwn;

Cyfeirio'r deisebwyr at adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans;
Ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ofyn a yw'n bwriadu ailedrych ar yr adroddiad ar amseroedd ymateb y gwasanaeth ambiwlans yn y dyfodol.

**2.2P-04-364 Ffibr optig i ardaloedd gwledig**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:
Wneud cais am y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Llywodraeth yn y maes hwn, yn benodol mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd yn y ddeiseb;
Ysgrifennu at Ofcom i gael ei farn ar y ddeiseb.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**3.1P-04-354 Datganiad cyhoeddus yn cefnogi Bradley Manning**
**3.2**

Fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol, rhoddodd Bethan Jenkins y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei Datganiad o Farn ar y mater a godir yn y ddeiseb. Dywedodd y byddai'n rhoi gwybod i ymgyrch Bradley Manning pryd y bydd cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol yn cael ei gynnal.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd er mwyn tynnu ei sylw at y ddeiseb.

**3.3P-04-352 Galwad i Achub Golchdy Stêm y Rhath**

Yn sgîl y ffaith bod y deisebwyr wedi rhoi gwybod i'r tîm clercio bod yr adeilad bellach yn cael ei ddymchwel, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

**3.4P-04-340 Creu ardal fenter yng Nghasnewydd**
**3.5**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth a dogfennau yn ymwneud â'r ddeiseb hon.

Cytunodd y Pwyllgor i dynnu sylw'r deisebydd at ddatganiadau'r Gweinidog ar y mater hwn ac i'w gynghori bod y Pwyllgor, yn sgîl datganiadau clir y Gweinidog ar y mater hwn, yn bwriadu cau'r ddeiseb oni bai bod y deisebydd o'r farn bod rhywbeth arall y gall y Pwyllgor wneud yn ei chylch.

**3.6P-03-315 Deiseb i Gael Croesfan Newydd dros Afon Dyfi**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth yn ymwneud â'r ddeiseb hon a chytunodd i:
Wneud cais am amserlen ddangosol ar gyfer y gwaith a grybwyllwyd yng ngohebiaeth y Gweinidog; a
Gwneud cais bod y Gweinidog yn ymrwymo'n bendant i ymweld â'r groesfan bresennol.

**3.7P-03-085 Meddygfeydd yn Sir y Fflint**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth yn ymwneud â'r ddeiseb hon a chytunodd i ysgrifennu at Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn ceisio cael eglurder ar y sefyllfa, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed.
**3.8P-03-280 Ysbyty Brenhinol Caerdydd**
**3.9**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth yn ymwneud â'r ddeiseb a chytunodd i roi gwybod i'r deisebwyr am ei benderfyniad i gau'r ddeiseb oni bai bod ymateb yn dod i law ganddynt erbyn canol mis Mawrth 2012.

**3.10 P-03-295 Kyle Beere - Gwasanaethau Niwroadsefydlu Paediatrig**
**3.11**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth yn ymwneud â'r ddeiseb a chytunodd i:
Gynnal sesiwn dystiolaeth lafar ar y materion a godir yn y ddeiseb;
Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn tynnu ei sylw at y materion a godir yn y ddeiseb.

**3.12 P-04-334 Uned arennol newydd yn Ysbyty Tywysog Siarl**

Trafododd y Pwyllgor yr ymweliad rapporteur ag uned arennol Ysbyty'r Tywysog Siarl a chytunodd i:
Gynnal ymweliad â'r uned arennol ym Mhentwyn, Caerdydd, gan estyn gwahoddiad i unrhyw gleifion yn uned Ysbyty'r Tywysog Siarl a hoffai fynd iddo;
Ysgrifennu at y Gweinidog gan wneud cais am y wybodaeth ddiweddaraf am yr achos busnes dros fuddsoddi cyfalaf yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

**3.13 P-04-348 Targedau ailgylchu ar gyfer byrddau iechyd**
**3.14**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth yn ymwneud â'r ddeiseb a chytunodd i:
Wneud cais am amserlen gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llunio'r cynllun sector a grybwyllwyd yng ngohebiaeth y Gweinidog;
Gwneud cais am fanylion gan y Gweinidog ynghylch y mathau gwahanol o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a chyfran y gwastraff sy'n cael ei drin yn y modd hwn; a
Chomisiynu darn byr o waith ymchwil ar y mater gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol.

**3.15 P-03-143 Ysgol Penmaes**

Yn sgîl y diffyg ymateb a gafwyd gan y deisebydd, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

**Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 10.08 a 10.31 o dan Reol Sefydlog 17.47**

## 4. Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau - sesiwn dystiolaeth lafar

**4.1P-04-331 Ffilmio a Recordio Cyfarfodydd Cynghorau**
**4.2**

Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor ar y mater a godir yn y ddeiseb.

**4.3P-04-332 Manylion am wariant dros £500 gan Awdurdodau Lleol**

Bu'r Gweinidog yn ateb cwestiynau gan y Pwyllgor ar y mater a godir yn y ddeiseb, a chytunodd i rannu manylion am yr effaith a'r buddion a brofwyd gan awdurdodau lleol sydd wedi dechrau cyhoeddi manylion am eu gwariant.

## Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](trawsgrifiad o'r cyfarfod).